**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
Drwy e-bost

13 Mai 2024

Annwyl Adrian

Aelodaeth o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Cawsoch wybod gennyf ar 15 Ebrill 2024 fod Kathryn Chamberlain wedi'i hanghymhwyso fel aelod, ac fel Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, yn sgil ymgymryd â rôl o 1 Ionawr 2024 a oedd yn anghymwyso, yn unol â Pharagraff 26 o Atodlen 1 i Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Fel y soniwyd ar y pryd, cefais fod hon yn sefyllfa anffodus iawn, ac roeddwn yn hynod siomedig fod cyfnod Kathryn Chamberlain wedi dod i ben yn gynamserol.

Mae'n siŵr gennyf y byddai'r ddau ohonom yn dymuno gwneud yn siŵr nad yw'r sefyllfa hon yn codi eto. Fel Pwyllgor, rydym wedi trafod camau i liniaru'r risg, a hoffem i Archwilio Cymru gymryd y camau rhagweithiol a ganlyn.

Nodwn fod aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi hysbysiad o'u buddiannau yn rheolaidd ar wefan Archwilio Cymru, sy'n cynnwys unrhyw ymrwymiadau ychwanegol, a rolau â thâl a gyflawnwyd. Mae'r dull hwn wedi'n calonogi, fodd bynnag, fel mesur diogelu ychwanegol gofynnwn i unrhyw ddiweddariadau a wneir i gofrestrau Aelodau Anweithredol y Bwrdd gael eu rhannu â Chlerc y Pwyllgor Cyllid. Er mai'r unigolyn sy'n parhau i fod yn gyfrifol am hysbysu'r Pwyllgor Cyllid yn unol â'i delerau ac amodau, bydd y dull hwn yn sicrhau bod unrhyw bryderon ynghylch ymrwymiadau Aelodau Anweithredol yn cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor.

At hynny, mae'r Pwyllgor yn gofyn am newidiadau i'r rhaglenni sefydlu a hyfforddi ar gyfer Aelodau Anweithredol, fel eu bod yn cael eu hatgoffa o'r gofynion wrth ymgymryd â rolau newydd.

Byddwch yn gwerthfawrogi ei bod o fudd i'n dau ni sicrhau bod aelodaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydlog, a bod enw da ac uniondeb trefniadau llywodraethiant Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hamddiffyn, a'u bod y tu hwnt i anghlod.

Hoffwn eich sicrhau bod y Pwyllgor, hefyd, yn cymryd camau yn y maes hwn, ac rwyf wedi ysgrifennu at yr Aelodau Anweithredol presennol yn eu hatgoffa o'r darpariaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â'u penodi, a'r gofynion yn eu telerau ac amodau ynghylch hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw newidiadau i ymrwymiadau presennol. At hynny, rwyf wedi ei gwneud yn glir y gallant ofyn am gyngor y Pwyllgor cyn ymgymryd â rolau ychwanegol.

Byddaf, hefyd, yn parhau i roi arweiniad clir i ddarpar ymgeiswyr ar gymhwysedd fel rhan o ymgyrchoedd recriwtio Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol, yn ogystal â chynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy trylwyr cyn penodi.

Hyderaf y gallwn gydweithio ar y materion hyn.

Os bydd angen unrhyw eglurhad pellach arnoch, neu wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â'm prif swyddog: Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6388, SeneddCyllid@senedd.cymru.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.